OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 2756

# Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003

## RHAN 7

## Cofnodion

### Cofnodion

**31.** Caiff unrhyw gofnod y mae'n ofynnol ei gadw o dan y Rheoliadau hyn fod ar ffurf ysgrifenedig neu electronig a rhaid iddo gael ei gadw am ddwy flynedd o leiaf.

### Cofnodion ar gyfer traddodi, cludo neu dderbyn sgil-gynhyrchion anifeiliaid

**32.** Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 9(1) o Reoliad y Gymuned yn euog o dramgwydd.

### Cofnodion ar gyfer claddu neu losgi sgil-gynhyrchion anifeiliaid

**33.** Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 9 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 811/2003 yn euog o dramgwydd.

### Cofnodion ar gyfer gwaredu neu ddefnyddio ar y safle

**34.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i weithredydd unrhyw safle sy'n gwaredu neu'n defnyddio unrhyw sgil-gynnyrch anifeiliaid (ac eithrio gwrtaith neu ddeunydd nad yw wedi'i gynnwys yn Rheoliad y Gymuned o dan Erthygl 1(2) o'r Rheoliad hwnnw), neu gynnyrch wedi'i brosesu ar y safle wneud cofnod wrth waredu neu ddefnyddio o bob gwarediad neu ddefnydd yn dangos y dyddiad pan waredwyd neu pan ddefnyddiwyd y sgil-gynnyrch anifeiliaid a maint a disgrifiad o'r deunydd a waredwyd neu a ddefnyddiwyd, a bydd methu â gwneud hynny yn dramgwydd.

(2) Ni fydd y gofyniad ym mharagraff (1) yn gymwys i waredu ar y safle drwy fwydo sgil-gynhyrchion anifeiliaid neu gynhyrchion wedi'u prosesu i ymlusgiaid ac adar ysglyfaethus ac eithrio anifeiliaid sw neu syrcas.

### Cofnodion danfon i'w cadw gan weithredwyr gweithfeydd bio-nwy a gweithfeydd compostio a gymeradwywyd

**35.**—(1) Rhaid i weithredydd unrhyw safle bio-nwy neu safle compostio gofnodi —

(a) y dyddiad y danfonwyd y gwastraff arlwyo i'r safle;

(b) maint y gwastraff arlwyo a disgrifiad ohono gan gynnwys datganiad ynghylch a gymerwyd camau yn y tarddle i sicrhau bod y gwastraff yn wastraff heb gig ; ac

(c) enw'r cludydd;

a bydd methu â gwneud hynny yn dramgwydd.

**Cofnodion triniaeth ar gyfer gweithfeydd bio-nwy a gweithfeydd compostio**

**36.** Rhaid i weithredydd gwaith bio-nwy neu waith compostio sy'n trin gwastraff arlwyo neu sgil-gynhyrchion anifeiliaid eraill gofnodi —

(a) y dyddiadau pan gafodd y deunydd ei drin;

(b) disgrifiad o'r deunydd a driniwyd;

(c) maint y deunydd a driniwyd;

(ch) canlyniad pob gwiriad a gyflawnwyd yn y pwyntiau critigol a nodir o dan baragraff 4 o Ran I o Atodlen 1; a

(d) digon o wybodaeth i ddangos bod y deunydd wedi'i drin yn ôl y paramedrau gofynnol;

a bydd methu â gwneud hynny yn dramgwydd.

**Cofnodion ar gyfer labordai a gymeradwywyd**

**37.** Rhaid i weithredydd labordy a gymeradwywyd o dan reoliad 21 gofnodi —

(a) enw a chyfeiriad y safle lle cymerwyd y sampl;

(b) y dyddiad pan gymerwyd y sampl;

(c) disgrifiad o'r sampl a dull ei adnabod;

(ch) y dyddiad pan dderbyniwyd y sampl yn y labordy;

(d) y dyddiad pan brofwyd y sampl yn y labordy; ac

(dd) canlyniad y prawf;

a bydd methu â gwneud hynny yn dramgwydd.

**Cofnodion i'w cadw ar gyfer llwythi o gompost neu weddill traul**

**38.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i feddiannydd safle y mae anifeiliaid cnoi cil, moch neu ddofednod yn cael eu cadw arno gofnodi —

(a) y dyddiad y daethpwyd â'r compost neu'r gweddill traul i'r safle hwnnw;

(b) maint a disgrifiad o'r compost neu'r gweddill traul;

(c) y tir y dodwyd y compost neu'r gweddill traul arno;

(ch) dyddiad ei ddodi; a

(d) y dyddiad pan roddwyd y tir dan gnwd gyntaf neu'r dyddiad y caniatawyd i anifeiliaid cnoi cil, moch neu ddofednod fynd ar y tir, p'un bynnag yw'r cynharaf;

a bydd methu â gwneud hynny yn dramgwydd.

(2) Ni fydd y gofyniad ym mharagraff (1) i gadw cofnodion yn gymwys yn achos unrhyw gyflenwad o gompost neu weddill traul sydd i'w ddefnyddio ar unrhyw safle a ddefnyddir fel annedd yn unig.